# Datblygu Ysbyty Nevill Hall
# a'n hysbytai cyffredinol lleol gwell

# Dogfen friffio

**Cyflwyniad**

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i ddisgrifio cam diweddaraf ein cynllun 'Dyfodol Clinigol', gyda'r nod o sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn yr hyn a alwn yn ein hysbytai cyffredinol lleol gwell (megis Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Ystrad Fawr) mor effeithiol â phosibl i ymateb i anghenion ein cymunedau a chynorthwyo ein canolfan gofal critigol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor a'n gwasanaethau cymunedol. Mae'n bwysig i ni sicrhau bod gan bawb sydd â diddordeb yn y ffordd y mae ein gwasanaethau'n cael eu darparu, gyfle i ddeall y cynigion ac i fynegi eu barn i ni.

**Cefndir**

Agorwyd ein canolfan gofal arbenigol a chritigol (Ysbyty Athrofaol y Faenor) yn gynnar (yn yr hydref 2020) yn ystod pandemig COVID 19. Ein cynllun fu darparu'r rhan fwyaf o ofal iechyd ledled Gwent mor agos â phosibl at gymunedau lleol, gan sicrhau bod gofal mwy arbenigol a chymhleth yn cael ei ddarparu yn unol ag arfer orau, fel arfer yn Ysbyty Athrofaol y Faenor neu ar safle arall yn y Bwrdd Iechyd.

Mae gennym ni bellach brofiad o'n hysbyty newydd yn darparu'r gwasanaethau arbenigol ar gyfer ein holl boblogaeth, a dealltwriaeth o'r heriau y mae gwasanaethau'n eu profi, ac mae hyn wedi ein helpu i ystyried cam diweddaraf ein cynllun clinigol i wneud ein system gofal iechyd gyfan mor effeithlon ac effeithiol â phosibl er mwyn darparu'r gofal gorau i'r boblogaeth yr ydym yn ei gwasanaethu.

**Heriau cyfredol y gwasanaeth**

Mae'r heriau rydym wedi'u hwynebu ers agor Ysbyty Athrofaol y Faenor yn sylweddol ac yn cynnwys y canlynol:

- Mae rhai o'n gwasanaethau dan bwysau difrifol ac nid ydynt mor effeithiol ac effeithlon ag y maent wedi'u trefnu ar hyn o bryd.
- Er bod heriau gweithlu ar gyfer nifer o arbenigeddau wedi gwella oherwydd y cydgrynhoi yn Ysbyty Athrofaol y Faenor (er enghraifft cardioleg, gwasanaethau mamolaeth, staff yr adran achosion brys a gofal critigol), mae rhai

arbenigeddau'n dal i gael eu rhannu'n rhy denau ar draws ein hysbytai ac felly mae'n anodd iawn staffio'r holl rotâu'n ddibynadwy mewn rhai gwasanaethau.
- Mae gennym welyau ychwanegol yn ein system o hyd a agorwyd yn ystod COVID (ymhell uwchlaw'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol dan strategaeth Dyfodol Clinigol), ac nid yw hyn yn gynaliadwy o ran staffio a chost
- Er bod gennym rai cyfleusterau modern a newydd (er enghraifft Ysbyty Athrofaol y Faenor, Ysbyty Ystrad Fawr a chanolfannau iechyd a llesiant newydd) mae nifer o'n hysbytai a'n cyfleusterau cymunedol yn cael eu darparu o adeiladau hen ffasiwn ac annibynadwy, (er enghraifft, mae presenoldeb concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC) yn Ysbyty Nevill Hall y golygu bod angen cynllun arnom i atgyweirio neu gael gwared ar hyn yn y tymor hwy.
- Rydym yn gweithio fwyfwy gyda'r Byrddau Iechyd Eraill yn Ne -ddwyrain Cymru i gynllunio a darparu gwasanaethau ar sail ranbarthol
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn wynebu heriau ariannol cynyddol, sy'n effeithio ar ein gallu i fuddsoddi mewn meysydd gwasanaeth blaenoriaeth a cyn ei gwneud yn ofynnol i ni edrych ar y gwerth gorau o fuddsoddiad

Er mwyn i'r system weithredu'n llwyddiannus, rhaid i'n hysbytai cyffredinol lleol gwell fod yn addas i'r diben, gyda gweithlu diogel a chynaliadwy sy'n darparu'r gofal gorau posibl i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.

**Ein Strategaeth Newydd**
Yn ddiweddar, rydym wedi ceisio barn y cyhoedd ar ein strategaeth hirdymor newydd ar gyfer y Bwrdd Iechyd ('Sgwrs am ddyfodol iach') i ganfod beth oedd yn bwysig i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Roedd hyn yn edrych ar yr hyn sydd angen i ni ei wneud dros y ddeng mlynedd nesaf a thu hwnt, yn enwedig wrth edrych ar iechyd cyhoeddus, atal salwch a chanolbwyntio ar 'beth sy'n bwysig i chi deimlo'n iach' - gallwch weld y manylion yma

https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni1/cynllun-10-mlynedd/

Rydym yn ddiolchgar iawn am yr holl adborth a gawsom, sydd wedi rhoi gwybodaeth werthfawr am yr hyn y dylai ein blaenoriaethau fod, gan gynnwys y canlynol:

<u>Blaenoriaethau i'r unigolyn</u>
- Gofalu am iechyd corfforol, gan gynnwys bwyta'n dda ac ymarfer corff
- Gofalu am iechyd meddwl, gan gynnwys treulio amser gydag anwyliaid, hobïau, treulio amser yn yr awyr agored a bod yn greadigol

<u>Blaenoriaethau i'r Bwrdd Iechyd</u>
- Mynediad haws at ofal sylfaenol fel apwyntiadau meddyg teulu a deintydd
- Amseroedd aros byrrach ar gyfer llawdriniaethau fel pen-glin a chlun newydd
- Teimlo bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn gwrando arnoch
- Gofal yn agosach at adref

<u>Blaenoriaethau i'r amgylchedd ehangach</u>

- Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus
- Mynediad at fannau gwyrdd
- Cymunedau diogel gyda thai fforddiadwy
- Campfeydd / dosbarthiadau ymarfer corff fforddiadwy a hygyrch
- Mynediad at grwpiau cymdeithasol a llesiant

**Gwersi ar gyfer Cynllunio ein Gwasanaethau yn y Dyfodol**
Er bod llawer o bobl yn cytuno ei bod yn bwysig ystyried popeth sy'n effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant, roedd pwyslais sylweddol hefyd ar fynediad haws at ofal a chael cymaint o wasanaethau lleol â phosibl. Mae hyn wedi cadarnhau'r angen i ni symud ymlaen â cham nesaf ein strategaeth Dyfodol Clinigol wreiddiol – i sicrhau bod ein hysbytai cyffredinol lleol gwell (megis Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Ystrad Fawr) wedi'u sefydlu i ddarparu'r gefnogaeth orau i gleifion a'n system gofal iechyd gyfan. I wneud hyn, mae angen i ni:

- Sicrhau bod gan ein gwasanaethau allweddol ddigon o gapasiti i fodloni'r galw disgwyliedig
- Sicrhau bod cymaint o wasanaethau â phosibl yn cael eu darparu'n agos at adref, gan gydnabod hefyd, lle mae angen gofal acíwt mwy cymhleth, ei fod yn cael ei ddarparu yn unol ag arfer orau a'r safonau clinigol uchaf
- Sicrhau bod yr holl wasanaethau'n effeithlon ac yn gynaliadwy (bydd hyn yn ein helpu i wella profiad cleifion a lleihau'r amser y mae cleifion yn aros yn yr ysbyty)
- Sicrhau bod gennym ddigon o staff / timau yn y gwasanaethau sydd eu hangen fwyaf
- Gweithio mwy ar sail ranbarthol lle mae hyn yn cynnig cyfleoedd i wella mynediad lleol a chynaliadwyedd gwasanaethau

Er bod yr amcanion hyn yn berthnasol i'n holl ysbytai cyffredinol lleol gwell, ein blaenoriaeth gyntaf yw datblygu'r gwasanaethau a ddarperir yn Ysbyty Nevill Hall yn y Fenni. Mae sawl rheswm dros hyn:

- Mae'r ysbyty'n bwysig nid yn unig i'r cymunedau lleol ond i'r rhanbarth ehangach, gan gynnwys cleifion o dde Powys ac o ardal Blaenau'r Cymoedd
- Mae buddsoddiad a datblygiad cyffrous eisoes yn digwydd ar safle Ysbyty Nevill Hall, gydag agor canolfan radiotherapi mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre, i wasanaethu'r poblogaethau o bob cwr o dde-ddwyrain Cymru a De Powys, gan ddod â gofal canser yn agosach at adref.
- Yn ddiweddar, mae Nevill Hall wedi dod yn ganolfan ar gyfer darparu gwasanaethau cataract nid yn unig i boblogaeth Gwent ond i boblogaeth ehangach de-ddwyrain Cymru
- Mae angen i ni ystyried a yw'r trefniadau staffio presennol yn diwallu anghenion y poblogaethau lleol orau, yn enwedig y rhai sy'n hŷn ac yn fwy bregus

- Fel y r amlygwyd uchod, mae rhai o'r adeiladau ar y safle yn cynnwys concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC), sydd angen sylw i sicrhau bod ein holl wasanaethau'n cael eu darparu mewn adeiladau diogel a chyfforddus

Gyda'i gilydd, mae'r materion hyn yn darparu angen a chyfle sylweddol i ni adolygu darpariaeth gwasanaethau effeithiol ar draws yr ardal ehangach yng ngogledd ardal y bwrdd iechyd a wasanaethir gan Ysbyty Nevill Hall.

**Beth sy'n Bwysig i ni ei Ystyried?**

Mae rhai ystyriaethau pwysig a fydd yn arwain ein gwaith:

1. Rydym am ddiwallu anghenion cymaint o gleifion â phosibl yn agosach at adref. Er enghraifft, rydym wedi gwneud neu'n cynllunio buddsoddiadau sylweddol mewn nifer o ganolfannau a gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae Canolfan Iechyd a Llesiant Bevan yn Nhredegar bellach yn rhoi'r cyfle inni ddod ag amrywiaeth o wasanaethau o wahanol asiantaethau ynghyd mewn adeilad modern a chyfforddus yng nghanol cymuned, gan helpu pobl i aros yn iach yn agos at adref. Mae gennym hefyd wasanaethau tebyg i ysbyty cymunedol effeithiol yng Nghas-gwent, Ebbw Vale, a Dyffryn Mynwy, a hoffem gael y math hwn o fodel mewn mwy o gymunedau, fel bod gorfod defnyddio gwasanaethau mewn ysbytai ymhellach i ffwrdd yn ddewis olaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid mewn awdurdodau lleol a grwpiau gwirfoddol i wneud i hyn yn bosibl.

2. Er bod gofal cleifion mewnol acíwt arbenigol (tymor byr) yn debygol o gael ei ddarparu orau yn Ysbyty Athrofaol y Faenor, efallai y bydd ardaloedd hefyd lle mae gofal arall yn cael ei ddarparu fwyaf effeithiol o un o'n safleoedd ysbyty cyffredinol lleol gwell, yn hytrach na phob un ohonyn nhw. Gall canoli rhai gwasanaethau yn y ffordd hon alluogi datblygiad canolfannau rhagoriaeth a sicrhau bod cleifion yn derbyn y gofal gorau posibl. Gallai enghreifftiau o hyn gynnwys y canlynol

    a. Gwasanaethau radiotherapi a chleifion allanol canser yn Ysbyty Nevill Hall
    b. Trwythiadau arbenigol (megis ar gyfer cyflyrau niwrolegol) ac amrywiaeth o weithdrefnau achosion dydd yn Ysbyty Brenhinol Gwent

3. Yna gallwn ddarparu gofal cleifion mewnol o'r radd flaenaf yn ein canolfan gofal critigol ac arbenigol (Ysbyty Athrofaol y Faenor) i'r rhai sydd angen hyn.

4. Efallai y bydd meysydd lle gellir gwella gofal drwy adolygu ystod o wasanaethau sydd wedi'u rhannu ar hyn o bryd am resymau hanesyddol a'u cydgrynhoi ar safle ysbyty cyffredinol lleol gwell mewn llety modern newydd. Enghraifft o hyn fyddai

rhai gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, y gellid eu grwpio'n effeithiol o bob rhan o ogledd Gwent i Ysbyty Nevill Hall.

5. Byddwn yn anelu at leihau unrhyw oblygiadau teithio posibl e.e. rheoli anghenion yn lleol lle gallwn, gan dderbyn yr angen i deithio i un safle o fewn y Bwrdd Iechyd am sylw mwy cymhleth fel y disgrifiwyd uchod.

**Sut le allai Ysbyty Nevill Hall y Dyfodol fod?**
Mae Ysbyty Nevill Hall yn safle pwysig i'r Bwrdd Iechyd, a gan ddefnyddio'r enghreifftiau uchod, hoffem ymestyn a datblygu'r ystod ehangaf o wasanaethau ar safle Ysbyty Nevill Hall.




Mae'r tabl isod yn nodi'r prif wasanaethau y byddem yn dymuno eu darparu yn y dyfodol:-

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau gofal 'dewisol' wedi'u cynllunio, fel llawdriniaeth ddyddiol ar gyfer orthopedeg, offthalmoleg a llawdriniaeth gyffredinol** | **Ystod eang o wasanaethau cleifion allanol, wedi'u dwyn ynghyd mewn uned integredig gyda mynediad at ddiagnosteg a thriniaeth ar yr un diwrnod ynghyd ag asesiad ymlaen llaw ar gyfer llawdriniaeth arfaethedig** |
| **Model 'drws ffrynt' integredig ar gyfer gofal brys, gyda phwyslais ar ddiwallu anghenion pobl hŷn yn nes at eu cartref** | **Gwelyau cleifion mewnol i gwmpasu ystod o gyflyrau meddygol eraill sy'n gofyn am fynediad i'r ysbyty** |
| **Gwasanaethau plant i bobl ifanc ag anghenion penodol** | **Canolfan iechyd menywod sy'n darparu gwasanaethau cleifion allanol, diagnosteg a thriniaeth bwrpasol mewn un lle** |
| **Gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu cynhwysfawr, sy'n rhan o ddarpariaeth ehangach ar draws gogledd y sir** | **Gwasanaethau diagnostig cynhwysfawr, gan gynnwys pelydrau-x, MRI, sganio CT, uwchsain, meddygaeth niwclear ac endosgopi** |
| **Ystod newydd o wasanaethau ar gyfer cleifion canser, gan gynnwys therapïau gwrth-ganser uwch,** | **Llety a chyfleusterau ar gyfer sefydliadau partner e.e. gwasanaethau cymdeithasol, i** |

| | |
|---|---|
| **hematoleg ac uned newydd (a redir mewn partneriaeth â chydweithwyr Ysbyty Felindre) ar gyfer radiotherapi arbenigol** | **ganiatáu inni weithio'n agosach gyda'n gilydd a sicrhau cynllunio a gofal cydgysylltiedig o ansawdd uchel** |
| **Uned anafiadau bach, sy'n darparu ystod eang o wasanaethau ar gyfer gofal nad yw'n gritigol, gan gynnwys toriadau syml, datgymaliadau, clwyfau a rhwymynnau** | **Gwasanaethau therapi cleifion mewnol ac allanol fel therapi galwedigaethol, therapi lleferydd ac iaith a ffisiotherapi. (ochr yn ochr â darpariaeth gymunedol sy'n darparu gofal yn agosach at adref)** |

Bydd darparu'r holl wasanaethau hyn i'r lefel a'r safon yr ydym yn dymuno yn gofyn am fuddsoddiad newydd, ac rydym yn paratoi achos buddsoddi i Lywodraeth Cymru ei ystyried.

**Beth allai Hyn ei Olygu i Gleifion?**

Gwyddom fod cydbwysedd i'w daro bob amser rhwng sicrhau bod gofal iechyd yn cael ei ddarparu mor agos at adref â phosibl ar y naill law a sicrhau gwasanaethau arbenigol diogel a chynaliadwy ar y llaw arall. Yn gyffredinol, y ffordd yr ydym am gyflawni'r cydbwysedd hwnnw (gan ddefnyddio Ysbyty Nevill Hall fel yr enghraifft gyntaf) fyddai fel a ganlyn:

1. Sicrhau nifer uchaf o wasanaethau sydd ar gael mewn cymunedau ac mewn cyfleusterau lleol.

2. Sicrhau bod cymaint o wasanaethau asesu, diagnostig a gwasanaethau allanol (heb fod angen mynediad) â phosibl yn cael eu darparu ar draws ein holl ysbytai cyffredinol lleol, gan leihau'r angen i deithio am ofal arferol anarbenigol.

3. Lle nad oes angen i wasanaethau fod yn Ysbyty Athrofaol y Faenor ond na ellir eu darparu ym mhob ysbyty cyffredinol lleol, creu canolfannau rhagoriaeth a hunaniaethau cryf. Er enghraifft, yn Ysbyty Nevill Hall, byddai hyn yn cynnwys gwasanaethau canser a llawdriniaeth achosion dydd. Bydd hyn yn helpu gyda recriwtio i'r gwasanaethau hyn yn ogystal â chodi safonau gofal yn y meysydd hyn.

4. Sicrhau bod ein gwasanaethau cleifion mewnol mwy cymhleth ac arbenigol fel strôc, meddygaeth y frest a chyflyrau'r galon ar gael mewn gyfleusterau o ansawdd uchel penodol yn Ysbyty Athrofaol y Faenor i'r rhai sydd angen y lefel honno o ofal.

Dangosir isod enghreifftiau o sut y gallai hyn edrych i rywun sydd angen asesiad / gofal (a elwir weithiau'n 'llwybr' claf): -

| Pa ofal resbiradol (y frest) sydd ei angen arnaf? | Ble y gellir ei ddarparu? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Archwiliad arferol am gyflwr y frest e.e. asthma | Meddygfa leol a / neu ysbyty cyffredinol lleol |
| Asesiad mwy manwl os ydych chi'n teimlo'n sâl yn sydyn gyda chyflwr y frest | Ysbyty Brenhinol Gwent fel ein prif safle ar gyfer gofal resbiradol 'cerdded i mewn' |
| Mynediad i wely ar gyfer gofal arbenigol gan Feddyg Ymgynghorol y Frest | Ysbyty Athrofaol y Faenor fel ein canolfan gofal critigol |

| Pa ofal cardioleg (calon) sydd ei angen arnaf? | Ble y gellir ei ddarparu? |
|---|---|
| Archwiliad arferol am gyflwr y galon e.e. | Meddygfa leol a / neu ysbyty cyffredinol lleol |
| Unrhyw brofion diagnostig, heblaw'r rhai sydd angen y labordy cathetr cardiaidd, ynghyd â chlinig cleifion allanol ac adolygiadau adsefydlu | Pob ysbyty cyffredinol lleol |
| Mynediad i wely ar gyfer gofal arbenigol gan Feddyg Ymgynghorol y Galon | Ysbyty Athrofaol y Faenor fel ein canolfan gofal critigol |

| Pa ofal diabetes sydd ei angen arnaf? | Ble y gellir ei ddarparu? |
|---|---|
| Archwiliad arferol neu brawf am gyflwr diabetes | Meddygfa leol a / neu ysbyty cyffredinol lleol |
| Asesiad mwy manwl a thriniaethau arbenigol ar gyfer cyflwr diabetes (hen fod angen mynediad) | Uned diabetes arbenigol Ysbyty Nevill Hall (neu asesiad cleifion allanol mewn ysbytai cyffredinol lleol eraill) |
| Mynediad i wely ar gyfer gofal arbenigol gan ymgynghorydd diabetes arbenigol | Pob ysbyty cyffredinol lleol (ar sail ymgynghorydd ymweld yn Ysbyty Ystrad Fawr) |

| Pa ofal brys sydd ei angen arnaf? | Ble y gellir ei ddarparu? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Mân anafiadau | Uned mân anafiadau ym mhob un o'n hysbytai cyffredinol lleol |
| Pryderon anafiadau y tu allan i oriau gwaith | Unedau mân anafiadau (yn ôl oriau agor)<br>ym mhob un o'n hysbytai cyffredinol lleol<br>neu ffoniwch 111/999 |
| Damwain neu argyfwng sy'n gofyn am ofal brys arbenigol<br>(yn cynnwys llawdriniaeth frys) | Ysbyty Athrofaol y Faenor<br>fel ein canolfan gofal critigol |

**Clywed eich Barn**

Er ein bod yn credu y bydd mabwysiadu'r egwyddorion a'r syniadau hyn yn ein helpu i ddarparu'r gofal gorau posibl o fewn ein hadnoddau, cyn gwneud penderfyniadau terfynol, rydym am gynnwys a chlywed gan drigolion, staff, gwasanaethau cymorth, grwpiau gwirfoddol a phawb arall sydd â diddordeb yn ein gwasanaethau. Mae'n bwysig bod gan bawb y cyfle i ddeall y cynigion, i roi adborth ac i godi unrhyw ymholiadau neu bryderon i gael ymateb. Mae enghreifftiau o ble yr hoffem gael eich barn yn cynnwys:

- A yw ein meddwl presennol yn glir a synhwyrol?
- beth yw eich barn am ein nodau a'n hegwyddorion?
- A oes gennych unrhyw bryderon am ein cynlluniau?
- Pa ffactorau eraill yr hoffech i ni eu hystyried?

Bydd hyn yn darparu gwybodaeth werthfawr a fydd yn dylanwadu ar benderfyniadau terfynol a manylion y gwasanaeth. Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a dderbynnir i ddiweddaru'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb.

**Sut fydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud hyn?**

Er mwyn sicrhau bod gan bawb y cyfle i leisio eu barn, mae'r Bwrdd Iechyd yn cychwyn cyfnod ymgysylltu wyth wythnos, sy'n cynnwys y canlynol: -

- Dangos gwybodaeth yn amlwg mewn meysydd gwasanaeth, gan gynnwys posteri ac arddangosfeydd
- Darparu ffurflenni gwybodaeth / arolwg i'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau
- Tudalen wybodaeth bwrpasol ar wefan y Bwrdd Iechyd, i gynnwys Cwestiynau Cyffredin, mynediad i'r arolwg (gyda'r opsiwn o fersiwn bapur), pwyntiau cyswllt / rhifau a diweddariadau wrth i gynlluniau fynd rhagddynt
- Sesiynau gwybodaeth gyhoeddus / digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb
- Negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol
- Cyflwyniadau i grwpiau a sefydliadau allweddol sydd â diddordeb
- Cyfarfodydd rheoli ar gyfer rhanddeiliaid mewnol y GIG

Bwriedir cynnal y cyfnod ymgysylltu o **ddydd Mawrth 24 Mehefin 2025 tan ddydd Gwener 15 Awst 2025**

**Sut gall pobl leisio eu barn?**
Gellir rhannu barn drwy unrhyw un o'r dulliau canlynol: -

- Cwblhewch ein harolwg y gellir cael mynediad iddo drwy wefan y Bwrdd Iechyd neu drwy'r cod QR ac URL isod:

  **URL:** https://forms.office.com/e/FkXFZxxPPy

- Mynychu sesiwn ymgysylltu â'r cyhoedd, lle gallwch wrando ar gyflwyniad, dysgu mwy am y cynnig a gofyn unrhyw gwestiynau i staff y Bwrdd Iechyd. Trefnwyd y rhain fel a ganlyn:

| Dyddiad | Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Dydd Iau 3ydd Gorffennaf | 5.30pm – 7.30pm | Theatr ddarlithio, Y Ganolfan Addysg Ysbyty Nevill Hall, NP7 7EG |
| Dydd Mercher 9fed Gorffennaf | 2pm – 3.30pm | Ar-lein drwy MS Teams (cofrestrwch drwy'r e-bost isod) |
| Dydd Mawrth, 15fed Gorffennaf | 4pm – 6pm | Neuadd Stocktonville, Ffordd Gelli, Tredegar NP22 3RD |
| Dydd Mercher 23ain Gorffennaf | 5.30pm – 7.30pm | Canolfan Byw Egnïol Pont-y-pŵl, Stryd Trosnant, Pont-y-pŵl, NP4 8AT |
| Dydd Mercher 30ain Gorffennaf | 3.30pm – 5.30pm | Canolfan Gymunedol Stow Park 1 Heol Bryn Hyfryd, Casnewydd, NP20 4FX |
| Dydd Mercher 6ed Awst | 4pm – 6pm | Canolfan Addysg, Ysbyty Ystrad Fawr, Ystrad Fawr Way, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7EP |

| | | |
|---|---|---|
| | | (Ewch i mewn drwy Fynedfa 2 ac ewch i Lefel 02) |
| Dydd Iau 7fed Awst | 5.30pm – 7pm | Ar-lein drwy MS Teams<br>(Cofrestrwch drwy'r e-bost isod) |
| Dydd Mawrth, 12fed Awst | 5.30pm – 7.30pm | Ystafell Kymin, Canolfan Bridges<br>Tŷ Pont Sych, Parc Pont Sych,<br>Trefynwy, NP25 5AS |

- **Cysylltwch â ni** gydag unrhyw sylwadau drwy e-bost neu cofrestrwch os hoffech ymuno â'r sesiynau ar-lein uchod drwy **ABB.PlanningDepartment@wales.nhs.uk** a byddwn yn trefnu i anfon dolen i'r sesiwn atoch.
- Cyfrannwch at unrhyw sgyrsiau ar y cyfryngau cymdeithasol drwy dudalennau'r Bwrdd Iechyd ar **Facebook ac Instagram**

**Beth fydd yn digwydd ar ôl y cyfnod ymgysylltu?**

Unwaith mae'r cyfnod ymgysylltu wedi'i gwblhau, bydd yr holl ymatebion a barn yn cael eu casglu a bydd adroddiad ymgysylltu'n cael ei baratoi. Bydd hyn yn cael ei rannu â rhanbarth lleol Llais (corff llais y dinasyddion a ddisodlodd Gynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru) a bydd casgliadau'n cael eu cyrraedd ynghylch a ellir gwneud penderfyniad terfynol ar ddarpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol, neu a oes angen camau gweithredu pellach. Yn amodol ar drafodaethau pellach gyda Llais, efallai y byddwn am ddechrau cyfnod o ymgynghori ffurfiol ar ein cynigion penodol, ac os gwnawn hynny byddwn unwaith eto'n gwahodd eich barn.